OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 491 (Cy. 103)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *28 Mawrth 2017* |
| *Coming into force - -* | *1 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 166(2)(b) a 167(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**2**).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 19—

(a) hepgorer paragraff (1)(c);

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Os yw unrhyw un neu ragor o'r cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad a gynhelir o dan adran 14 o'r Ddeddf, rhaid iddynt ystyried a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun."

(3) Yn Atodlen 1, Tabl 2 (swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol) ar y diwedd mewnosoder—

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299).

"Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**3**)*(cynlluniau yn dilyn asesiadau o anghenion o dan adran 14)"*.

(4) Yn Atodlen 2 (swyddogaethau cymorth i deuluoedd), yn Nhabl 1 (swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant), ar ôl yr eitem ar gyfer "Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf"—

(a) yn y golofn gyntaf (y swyddogaeth) mewnosoder—

"Rhan 6 o'r Ddeddf (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya)"; a

(b) yn yr ail golofn (rhychwant) mewnosoder—

"I'r graddau y maent yn ymwneud â diwallu anghenion am ofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol a darparu cyngor a chymorth i bobl ifanc o dan y Rhan honno."

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2017

(**3**) Mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), Atodlen 4, paragraff 34.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud gan gyfuniadau o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Gwnaed Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau") o dan y pwerau yn adran 166 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol penodedig o dan gyfarwyddyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r prif Reoliadau hefyd yn pennu'r swyddogaethau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sydd i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn ychwanegu'r swyddogaethau o dan adran 14A o Ddeddf 2014 at y rhestr o swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol a bennir i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rheoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) drwy hepgor rheoliad 19(1)(c) ac ychwanegu rheoliad newydd 19(1A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth ystyried a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun os ydynt yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i asesiad o dan adran 14 o Ddeddf 2014 (a adwaenir fel asesiad poblogaeth).

Maent hefyd yn diwygio Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (sy'n pennu swyddogaethau cymorth i deuluoedd timau integredig cymorth i deuluoedd) er mwyn mewnosod cyfeiriad at swyddogaethau o dan Ran 6 o Ddeddf 2014, i'r graddau y maent yn ymwneud â diwallu anghenion am ofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol a darparu cyngor a chymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r diwygiad hwn yn cywiro hepgoriad o Atodlen 2.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.